

25 Ionawr 2024

Marian Wyn Jones (MWJ): 00:30:37

Diolch Cadeirydd, a diolch Rachel am gyflwyniad hynod diddorol a braf iawn gweld y cynnydd sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae popeth rydan ni'n gwneud fel Bwrdd wrth gwrs yn dibynnu ar weithio efo eraill ac mae hwn yn arbennig o glir yn y strategaeth yma ac yn y strategaeth ehangach sy'n dod ger ein bron ni'n ddiweddarach y bore 'ma. I chi yn cyfeirio at y berthynas efo'r sector addysg uwch a phwysigrwydd y sector yma. Allwch chi ymhelaethu ychydig bach ynglyn â pha mor aeddfed ydy'r berthynas rhwng DHCW a'r strategaeth yma'n benodol a'r Prifysgolion ar draws Cymru, a lle i ni'n gobeithio mynd i'r dyfodol?

Ifan Evans (IE): 00:57:02

Diolch yn fawr Simon, mae'r ddwy eitem nesaf a chysylltiad agos iawn rhyngddyn nhw. Yr eitem gyntaf yw ein Strategaeth hir dymor chwe blynedd i 2030 a'r eitem sy'n dilyn yw'r IMTP y cynllun integredig, sydd yn gyfnod o dair blynedd, felly hanner cyntaf y chwe blynedd hynny. Wi'n mynd i sôn yn fwy manwl am y Strategaeth, a wedyn mae yna ddiweddariad yn yr ail bapur, fe oeddwn i ise hynny rhag ofn bo hynny'n rhoi mwy o amser i ni am gwestiynau ar ddiwedd hwn.

Cyn imi gychwyn wi jest ise dweud mod i'n falch iawn o'r cyfle i gyflwyno'r Strategaeth, a wi hefyd ise dechrau trwy ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu i'r gwaith dros y naw mis diwethaf siŵr o fod, ac mae hynny i'n staff ni ar draws y sefydliad, ni wedi cael sesiwn gyda nhw, ni hefyd wedi cael sesiynau gyda'r Tîm Gweithredol, gyda arweinwyr pob un o'r portfolios sydd yn ein IMTP, gydag aelodau'r Bwrdd fe wnaethom ni gyfarfod rwy'n credu wythnos diwethaf ac yn yr Hydref hefyd, a ni hefyd wedi gweithio y tu allan a thu hwnt i DHCW gyda thimoedd gweithredol pob sefydliad arall. Efallai ar y pryd doedden nhw ddim yn rhy siŵr pam oeddem yn ymgysylltu â nhw am y Strategaeth oherwydd roeddem yn sôn llawer am yr IMTP, fe wnai sôn am hyna mewn ychydig eiliadau. A ni wedi gweithio gyda grwpiau arweiniol ar draws NHS Cymru, yn arbennig y cyfarwyddwyr digidol sy wedi trafod ein drafft sawl gwaith a'r cyfarwyddwyr cynllunio, a byddwn yn parhau gyda'r gwaith hynny.

Wi am sôn ychydig yn fwy manwl am yr ymgysylltu rydym ni wedi gwneud, dydyn ni ddim wedi gorffen gyda'r gwaith, cynllun drafft yw hwn sy'n dod ger eich bron heddiw, felly mae dal i fod gwaith a chyfle i ni addasu'r ddogfen cyn ein bod ni gobeithio yn cadarnhau'r ddogfen derfynol yn ein cyfarfod nesaf ym mis Mawrth. Wi eisiau sôn am rai o'r pethau ni wedi dysgu dros y flwyddyn ddiwethaf, ond wnai gychwyn drwy ddweud mae'r IMTP sydd gennym ni, sydd yn gynllun strategol, a phan wnaethon ni ddatblygu'r IMTP y llynedd fe wnaethom ni yn fwriadol iawn ddod ag elfennau strategol newydd mewn i hynny dros y tair blynedd nesaf, sôn am bethau fel ein pensaerniaeth agored ac yn y blaen trwy greu portfolios newydd, newid y ffordd ni'n cyflwyno yr IMTP. Ma hwna'n rhywbeth i ni wedi cael sawl sgwrs gyda rhanddeiliaid a sefydliadau eraill, a ni wedi cael adborth positif iawn nid yn unig gan staff ein hunain ond hefyd gan bobl sy'n ymgeisio am swyddi gyda ni, ma nhw'n mynd i edrych ar yr IMTP a ma nhw'n cael dealltwriaeth dda, medden nhw wrtha'n ni o beth i ni'n gwneud fel sefydliad. Felly ma hwna wedi bod yn rhan o'n hymgysylltu.

Ni hefyd wedi cyhoeddi sawl cynllun strategol ein hunain, roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo pedwar strategaeth yn ein cyfarfod diwethaf ar sawl maes yn cynnwys Ymchwil ac Arloesi fel i ni wedi sôn, Gofal Cychwynnol, ein strategaeth ar gyfer rhanddeiliaid ac yn y blaen. Ac mae'r rhain i gyd wedi bwydo i mewn ac mae'r trafodaethau i ni wedi'u cael wedi bwydo i mewn i'r brif strategaeth. Os wnewch chi gofio fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi Strategaeth Ddigidol ar gyfer lechyd a Gofal yn yr Hydref a ni wedi cael sawl sgwrs gyda'r Llywodraeth er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni'n gweithio gyda hwna. Mae hyn yn ddiddorol ac yn dangos ein bod ni wedi cael y sgyrsiau hyn i gyd, ond dwi'n meddwl fy mod i ise amlygu dau beth rydym ni wedi dysgu yn ystod y cyfnod hwnnw ne sy wedi achosi i ni newid efallai rhai o'r pethau roedden ni wedi dychmygu fydd yn y Strategaeth. Y cyntaf o'r rheina yw'r gwaith sydd wedi'i wneud ar draws y system ar aeddfedrwydd digidol 'digital maturity', a ni wedi gweithio'n agos iawn gyda'r Llywodraeth a gyda sefydliadau NHS Cymru ar aeddfedrwydd digidol ac mae'r sgwrs yna wedi bod yn un gynhyrchol tu hwnt ac yn un sy wedi arwain newid agweddau a newid dealltwriaeth o beth sy angen arnom ni fel cymuned o sefydliadau dros y pum i chwe blynedd nesaf. Mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn i ni wrth i ni fwydo mewn i'n Strategaeth ni, ac yn ail y sefyllfa ariannol a'r pwysau ariannol sylweddol sydd arnom ni ar hyn o bryd ac sydd yn mynd i fod arnom ni dros y blynyddoedd nesaf. Does dim dewis yn y maes hynny, ni'n gwybod bod ein hadnoddau ni'n mynd i fod yn gyfyngedig iawn, ac mae'n rhaid i'n strategaeth ddangos sut fyddwn ni'n gallu dygymod â hynny a sut fyddwn ni'n gallu parhau i gyflawni pethau i ni eisiau eu cyflawni, ond hefyd heb fod yna arian sylweddol ychwanegol yn dod atom ni. Felly mae'n rhaid i ni feddwl yn ofalus iawn am sut allwn ni fod mor effeithiol a chynhyrchol a chael cymaint o ffocws â phosib er mwyn blaenoriaethu'n gywir. Felly mae hyn i gyd wedi'i fwydo i mewn i'n gwaith ni ar y Strategaeth a mae hyn wedi achosi i ni newid cyfeiriad, dwi'n meddwl a bydd aelodau'r Bwrdd yn cofio hyn o'r sgyrsiau gafon ni cyn y Nadolig, ond dyma'r tro cyntaf i ni gael cyfle i sôn yn gyhoeddus am hynny, felly dwi jest ise sôn yn fyr iawn am hynny. Yn wreiddiol, nôl yr yr haf llynedd, roeddem yn gweithio tuag at strategaeth bolisi 'policy strategy', a beth yw un o'r rheina yw strategaeth sy'n crynhoi'r holl strategaethau eraill sydd o'n cwmpas ni, felly ni'n dadansoddi strategaethau ni'n hunain, ein rhanddeiliaid y Llywodraeth, i ni'n ceisio cwmpasu hyn i gyd mewn i un naratif sy'n crynhoi'r cwbl a wedyn ni'n disgrifio neu'n creu darlun disgrifiadol o 2030. Dyna yw steil Cymru iachach a 'Healthier Wales' a strategaethau Llywodraeth, a dyna oeddem ni'n bwriadu ei wneud yn wreiddiol nôl yn yr haf, ond ni wedi newid cyfeiriad nawr ac o'ch blaenau heddiw mae gennych Strategaeth Gyflawni 'Delivery Strategy' yn fwy na 'Policy Strategy'. Y gwahaniaeth yw ein bod ni'n gosod blaenoriaethau clir iawn, mesuradwy, sy'n mynd i ddylanwadu ar ein dewisiadau ni dros y blynyddoedd nesaf a bod yr amcanion hynny'n amlwg iawn yn y Strategaeth, fel ein bod ni'n gallu bod yn fwy pendant ac yn fwy ymarferol, yn hytrach na disgrifio pethau yn gyffredinol ni'n ceisio disgrifio'n fanwl iawn y pethau fyddwn ni'n gyrru tuag atyn nhw dros y chwe blynedd nesaf, er mwyn medru cadw ffocws.

Wedyn fel nes i sôn ar y cychwyn, mae'r berthynas rhwng y Strategaeth a'r IMTP yn un allweddol iawn ac yn un ddefnyddiol iawn i ni dwi'n meddwl. Mae'r Strategaeth yn mynd i osod cyfeiriad tymor hir, ond yr IMTP sy'n dangos beth i ni'n mynd i wneud dros y tair blynedd nesaf. Yn yr IMTP byddwn ni'n gallu dangos a rhoi sicrwydd i bobl bod ni'n cyflawni yn erbyn ein dyletswyddau statudol, ein dyletswyddau cyfreithiol, blaenoriaethau polisi'r Llywodraeth ac yn y blaen. Felly os ydym ni'n gweithio gyda'r comisiynwyr, neu os ydym ni'n gweithio gyda Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, yn yr IMTP efallai yw'r lle i ni ddangos ein bod yn gwneud hynny ac i brofi hynny, mae'n bwysig ein bod ni'n gallu dangos hynny yn yr IMTP achos bod blwyddyn mae'r IMTP yn cael ei adolygu, bob blwyddyn mae'n dod i'r Bwrdd am gymeradwyaeth, bob blwyddyn mae'n mynd i'r Llywodraeth am gymeradwyaeth. Felly mae yna lawer iawn mwy o sicrwydd o gwmpas yr IMTP a dyna lle allwn ni addasu o flwyddyn i flwyddyn i wneud yn siŵr ein bod ni'n cyfuno'r holl bethau yna, rhai sydd gyda'n ni'n barod a'r rhai bydd yn newid dros y blynyddoedd nesaf. Wi'n meddwl bo hwna'n bwerus iawn,

ma fe yn ein IMTP felly mae cyfle yn y cyfarfod nesaf i ddod a'r ddau at ei gilydd, a bydd hynny'n ddefnyddiol tu hwnt.

Felly wnai sôn be sy yn y ddogfen yn gyflym er mwyn crynhoi be sy ynddi, ond jest i weud beth yw'r camau nesaf. Os allwn ni gytuno i'r drafft heddiw a ma hwna yn y papurau, ma fe wedi cael ei gyhoeddi, ac yn croesawu sylwadau wrth unrhyw un sy'n gwylio ar hyn o bryd neu sydd yn darllen y papurau ne sydd jest ise gwrando wrth iddyn nhw yrru neu redeg o gwmpas y parc neu beth bynnag, mae croeso i chi roi sylwadau i ni yn y Gymraeg neu yn y Saesneg ar y Strategaeth yn gyffredinol neu rhai manwl mewn ffordd agored iawn. Byddwn ni hefyd yn gwneud rhaglen o waith ymgysylltu yn ystod mis Chwefror trwy gyfarfodydd, arolwg ar lein yn benodol at ein rhanddeiliaid er mwyn sicrhau eu bod i gyd wedi gweld y ddogfen a bod nhw i gyd yn cael cyfle i ymateb i'r ddogfen hynny ond hefyd gyda'n staff ni yn fewnol, a bydd y gwaith gyda staff yn arbennig, lle byddwn yn ceisio cyd-fynd gyda'n gwaith ar yr IMTP a'r Strategaeth. Mae'n holl bwysig pan i chi'n gweld y ddwy ddogfen gyda'i gilydd mewn tua dau fis, bo nhw yn asio at ei gilydd, mae yna gysylltiad mor glir achos yr IMTP sy'n ein cymryd ni o leia hanner ffordd tuag at gyflawni'r amcanion sydd yn ein Strategaeth. Byddwn ni yn addasu ac yn mireinio'r ddogfen, mi fydd yna newidadau i'r ddogfen, ond wi'n gobeithio nid newidiadau sylfaenol fydd yn dadadeiladu'r holl beth, ond rhai fydd yn rhoi polish arno fe, sicrhau bod y geiriau'n gyson a'n bod mor glir ag y fedrwn ni'n disgrifio'r hyn rydym eisiau gwneud.

Felly beth sydd yn y ddogfen? I fod yn gryno ma fe yn y papurau, allwch chi eu darllen nhw eich hunain, y pethau wi eisiau eu pwysleisio yw, i ni wedi gwneud penderfyniad i fynd yn gryf iawn gyda'r pum cenhadaeth sydd gyda ni. Mae'r pum cenhadaeth yna'n gyfarwydd iawn i chi erbyn hyn, a wi'n siŵr bod pawb ar yr alwad yn gallu eu dweud nhw yn Saesneg o gof, gobeithio, dyma nhw'n Gymraeg: Darparu platfform sy'n galluogi trawsnewid digidol, (cenhadaeth un), Darparu gwasanaeth digidol o ansawdd uchel, Ehangu'r cofnod iechyd a gofal digidol a chynyddu'r defnydd o wasanaethau digidol sydd ar gael, Creu gwerth a chanlyniad trwy arloesi a bod yn bartner dibynadwy ac yn Sefydliad cynhwysol o ansawdd uchel. Mae'r pum cenhadaeth yna yn y 'Board Assurance Framework' ma nhw yn yr IMTP, ma nhw yn ein cynllun blynyddol, ni'n defnyddio nhw i gynllunio'n gwaith trwy'r flwyddyn, ni'n defnyddio nhw i adrodd ar ein cerrig milltir trwy'r flwyddyn, ma nhw wedi suddo'n ddwfn iawn mewn i'r hyn ni'n gwneud felly ni'n parhau â'r rheina yn ein strategaeth, dydyn ni ddim yn gwneud fframwaith gwahanol ni'n defnyddio'r fframwaith sydd gyda ni, a wi'n credu bod hyna'n cryfhau'r Strategaeth.

O fewn y ddogfen mae'r amcanion strategol hyn, mae deunaw ohonyn nhw ar hyn o bryd, ma yna le am ragor a ma ny le i fireinio'r amcanion. Ma nhw wedi'u trefnu yn ôl cenhadaeth, felly ma da ni'r sianeli clir yma o lle rydym yn mynd a ma nhw'n uchelgeisiol ac yn fesuradwy ac yn eitha pendant ac yn eitha cryno dwi'n meddw. Er enghraifft ni'n dweud erbyn 2030 bydd gennym ni filiwn o ddefnyddwyr o'r ap cenedlaethol, bydd ein data ni i gyd ar y platfform NDR yn y cwmwl, a bydd ein perthynas ni gyda'r rhanddeiliaid a gyda'n defnyddwyr yn y chwarter uchaf. Byddwn ni'n ceisio ei fesur a byddwn yn dangos ein bod yn y 'top quartile' o ran ansawdd a natur y perthnasoedd hynny. Felly ni yn gosod wi'n meddwl targedau heriol iawn i ni sy'n mynd i'n ymestyn ni fel sefydliad, ond mae hyna'n beth pwysig.

Wedyn yn olaf, mae'n gret i roi'r amcanion hynny allan ond fel nes i sôn, mae'r sefyllfa ariannol i ni ynddi yn un heriol tu hwnt, mae yna bwysau arnom ni fel sefydliad fel sydd ar bob sefydliad NHS, mae yna ddewisadau anodd iawn iawn o'n blaenau o ran blaenoriaethu a hefyd o ran newid y ffordd i ni'n gweithio. I ni gyd yn gwybod bod angen i ni drawsnewid fel sefydliad a fel system iechyd yn gyffredinol. Mae yna bum egwyddor y byddwn yn eu defnyddio er mwyn profi ein hunain, er mwyn llywio'r dewisiadau i ni'n gwneud o flwyddyn i flwyddyn, ac mae'n bwysig ein bod ni'n gallu gofyn y cwestiynau hyn wrth i ni lunio'r IMTP a'r pum hynny, eto chi wedi eu gweld nhw'n Saesneg dros y tri

neu bedwar mis diwethaf: sef Rhoi pobl yn gyntaf, Symleiddio popeth i ni'n gwneud, Cynllunio am ragor o ddata, Rhagor yn ddigidol, Canfod gwerth a rhagor o werth a Camu i mewn i'r dyfodol, ac mae mwy o fanylder am y rheini yn y Strategaeth.

Felly i grynhoi, wi'n falch tu hwnt i gyflwyno'r strategaeth i chi heddiw, a wi'n ddiolchgar am y cyfraniad wrthoch chi, pawb sydd ar y sgrin a'n staff ni gyd a'r rhanddeiliaid, i gael ni i ble ydan ni heddiw. Ni bron ar ddiwedd y daith, ma da ni gwpwl o fisoedd i fynd, ond wi'n falch iawn yn arbennig ei fod yn syml, a fod e'n glir a bod e'n gofiadwy, fel yr IMTP. Mae'n waith caled iawn i greu dogfennau fel hyn sydd yn syml, yn hawdd i'w cofio heb sleidiau a sgrïpts a deigramau neis. Felly rwy'n meddwl bod strwythur y pum cenhadaeth y pum egwyddor, pump o werthoedd sefydliadol sy'n mynd i wneud hi'n haws i'n staff ni gyd i gofio hwn ac yn arbennig i'w gofio fe yn gyson.

A wedyn wi jest ise cloi trwy sôn am y berthynas rhwng yr holl bethau yma, sut ma nhw i gyd yn dod at ei gilydd. Mae gennym ni Strategaeth chwe blynedd gydag amcanion strategol gweddol uchelgeisiol ond clir, wedyn mae gennym IMTP tair blynedd ac yn hwnnw mae yna llwybrau cyflawni, mae'n bwysig ein bod yn gallu gweld eu bod yn ein cymryd ni tuag at ein hamcanion strategol. Wedyn ar ôl cytuno i'r IMTP mae yna gynllun busnes blynyddol, ac yn y cynllun busnes blynyddol mae yna gerrig milltir y 'milestones' sy'n rhoi i ni'r 'annual plan', sy'n gyrru ni i lawr y llwybr sydd yn yr IMTP a wedyn dydych chi fel Bwrdd ddim yn gweld hyn ond i ni o fewn y sefydliad o dan y cerrig milltir yna mae gennym ni becynnau gwaith deuddeg wythnos, ma gennym ni 'sprints' pythefnos ac mae hynny'n rhan o'r symud ni'n gwneud tuag at y dull gweithio cynnyrch yr 'agile product approach'. Ni'n gallu gweld 'hierarchy' fan yna sy'n caniatáu i ni ddangos sut mae'r Strategaeth chwe blynedd yn cysylltu gyda'r gwaith i ni'n gwneud dros gylchoedd o ddeuddeg wythnos fel sefydliad a'u bod i gyd yn dod at ei gilydd.

Felly alla i ddim gor-ddweud faint o waith caled y mae wedi bod i gymaint o bobl i geisio crynhoi hwn i gyd i rywbeth wi'n meddwl sydd yn syml, ac yn glir ac yn gofiadwy. Felly rwy'n gobeithio bo chi'n ei hoffi fe a'ch bod chi'n barod i'w gymeradwyo. Wi'n croesawu cwestiynau, a diolch yn fawr iawn i chi.

IE: 1:29:56

Diolch yn fawr Simon, byddai'n weddol gryno er mwyn ein cadw ni ar amser a wi wedi sôn eisoes am rai o'r rhain. Beth sydd yn y papur yw diweddariad lle i ar ein cylch blynyddol o lunio'r IMTP. Fe fyddwch chi wedi cael diweddariad yn ddiweddar am y gweithdai ni wedi bod yn eu rhedeg trwy gydol mis Tachwedd yn arwain lan at y Nadolig gyda'n timoedd ni i gyd. Mae nhw mewn ffordd weddol organig yn cynnig i ni beth sydd angen bod yn yr IMTP blwyddyn nesaf, y gwaith sydd yn parhau ac yn disgrifio'r llwybrau cyflawni sydd gyda ni fynd. Jest cyn y Nadolig gafon ni'r fframwaith oddi wrth y Llywodraeth a ni hefyd wedi cael y sefyllfa ariannol i ni mynd i fod yn wynebu blwyddyn nesaf. Mae'r fframwaith i ni wedi cael wrth y Llywodraeth yn weddol gyson gydag un blwyddyn diwethaf, mae yna amcanion wedi'u gosod allan, ma nhw wedi newid tipyn bach, ond yn gyffredinol ni ar yr un llwybr. Un o'r pethau clir ar hwna wi'n credu yw bod yna bwyslais mawr ar y flwyddyn nesaf, hynny yw fel llynedd does yna ddim pwysau cyfartal dros y tair blynedd, yn yr IMTP mae yna fwy o fanylder a mwy o bwysau ar y flwyddyn gyntaf oherwydd y sefyllfa i ni ynddo.

Felly mae'r gwaith yn parhau o fewn i'r sefydliad, trwy fis Chwefror mae yna weithdai pellach er mwyn gwella'r drafft sydd gyda ni a asesu'r adnoddau sydd gyda ni yn erbyn nhw yn arbennig. Wi'n credu y cyfle i ni fel sefydliad yw ein bod ni yn wahanol i llynedd, mae gyda ni'r cyfle nawr i gyfuno beth mae'n timoedd ni'n dweud wrthym ni sef y llwybr ni ise bod arno dros y tair blynedd nesaf gyda beth mae'r Strategaeth yn ddweud, lle ni ise bod mewn chwe blynedd. Ac mae yna dyndra rhwng y

ddau beth yna, felly am y tro cyntaf dwi'n meddwl ni'n gallu cyfuno 'bottom up a top down strategic planning' dros y tair blynedd nesaf. Mae hwna'n rhan bwysig wi'n credu o sicrhau bod y gwaith yn gywir a'i fod yn gymwys, a bod yr IMTP yn gyrru ni tuag at beth sydd yn y Strategaeth.

Dwi ddim yn meddwl bod yna lawer iawn arall i'w ddweud, mae'n broses sydd yn gyfarwydd i bobl sydd ar yr alwad, achos ni wedi bod drwyddo fe llynedd. Dwi ddim yn rhagweld cymaint o newid o IMTP llynedd i IMTP eleni, o gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf, nethon ni lot o waith i newid ein fformat a'n cyflwyno llynedd, felly mi fydd y fformat a'r cyflwyno yn weddol debyg wi'n gobeithio, bydd hyd y ddogfen yn weddol debyg, beth sydd yn y ddogfen yw'r peth pwysig a byddwn ni'n gweithio gyda chi a'n timoedd ni dros y chwe wythnos nesaf cyn dod ag e yn ôl ddiwedd mis Mawrth. A byddwn ni fel pob bwrdd arall yng Nghymru yn cytuno ar yr IMTP jest cyn y dyddiad cau sef diwedd mis Mawrth, sydd hefyd yn benwythnos y Pasg wrth gwrs.

Felly croesawu unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar y papur.

IE: 2:29:34

Wel hollol gywir Cadeirydd, diolch yn fawr iawn, a hoffwn i gyflwyno Michelle ar gyfer yr eitem yma.

MWJ: 3:11:40

Diolch Cadeirydd, gai droi at y Gwasanaeth Desg a pherfformiad yn fano. Dan ni'n nodi bod yna system teleffonau newydd, sy'n galluogi ni rwan i adrodd nifer y galwadau fydd yn dod i mewn yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Gai felly fanteisio ar y cyfle i gael cadarnhad bod gyda ni bellach nifer digonol o siaradwyr Cymraeg i ymateb i'r galwadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe gofiwch yn y gorffennol bod yna bryder bod gyda ni ddim y capasiti yna, felly sicrwydd os gwelwch chi fod yn dda bod gyda ni ddigon o siaradwyr Cymraeg i gyflenwi'r galw. Diolch.